# Grantiau Bach – Dechrau Busnes Garddwriaeth

# Sut i Hawlio

© Hawlfraint y Goron 2025 WG52149 ISBN digidol **978-1-83715-639-9**

# Cynnwys


Ffurflen Hawlio Grant – Canllaw Sut i Lenwi ........ 3
  Neges Bwysig ........ 3
Cyfrif RPW Ar-lein ........ 4
Gweld y Ffurflen Hawlio Grant ........ 5
Dechrau'r Cais ........ 6
Parhau â'r Cais/Dechrau Eto ........ 6
Tudalen Cyflwyniad ........ 8
Dewiswch Gontractau ........ 9
Gweithgareddau ar gael i Hawlio amdanynt ........ 10
Adroddiad Prosiect – Cynnydd Prosiect ........ 11
Adroddiad Prosiect – Dangosyddion a Chanlyniadau ........ 12
Dogfennau Ategol – Tystiolaeth ar gyfer eich Cais ........ 13
Cyflwyno'r Hawliad ........ 14
  Gwallau a Gwybodaeth ........ 14
Datganiadau ac Ymrwymiadau ........ 15
Anfon ........ 16
Manylion Cysylltu ........ 17
  Ymholiadau gan Ffermwyr – y Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid ........ 17

# Ffurflen Hawlio Grant – Canllaw Sut i Lenwi

### Neges Bwysig

Mae'r canllaw hwn yn esbonio fesul cam sut i lenwi eich Ffurflen Hawlio Grant a'r dystiolaeth ddogfennol sy'n ofynnol i gefnogi eich cais.

Dim ond ar gyfer Dyfarniadau Grant sydd wedi eu cymeradwyo a'u derbyn drwy eich cyfrif RPW Ar-lein y bydd y ffurflen hawlio yn weladwy.


Cyfeiriwch at ganllawiau'r cynllun perthnasol am wybodaeth am reolau'r cynllun a chymhwystra.

Rhaid cwblhau'r Ffurflen Hawlio Grant ar RPW Ar-lein er mwyn hawlio taliad.

Os ydych yn cael trafferth neu os nad ydych yn gallu mynd i'ch cyfrif ar-lein, ffoniwch y Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid ar 0300 062 5004 (Ar agor o 8.30am tan 5.00pm Llun - Iau ac o 8.30am tan 4.30pm bob dydd Gwener).

# Cyfrif RPW Ar-lein


I weld y Ffurflen Hawlio Grant, rhaid ichi fynd trwy'ch cyfrif RPW Ar-lein Drwy ddefnyddio Porth y Llywodraeth neu GOV.UK One Login.




Ar ol ichi logio i mewn fe welwch dudalen Hafan eich cyfrif RPW Ar-lein.


# Gweld y Ffurflen Hawlio Grant

I weld y Ffurflen Hawlio Grant, cliciwch ar y ddolen ar gornel chwith isaf eich sgrin Hafan (gweler isod). Neu cliciwch ar y tab ‘Ffurflenni’ ar y bar dewis a chliciwch ar y ddolen Ffurflen Hawlio Grant yn y panel glas ar ochr dde’r sgrin.



# Dechrau'r Cais


Ar ôl pwyso'r botwm i ddechrau llenwi'ch Ffurflen Hawlio Grant, fe welwch y dudalen ganlynol. Gofalwch fod y manylion arni'n gywir ac os nad ydyn nhw, cywirwch nhw ar eich cyfrif RPW Ar-lein cyn mynd ymhellach. Os ydych yn barod i fynd yn eich blaen, cliciwch ar y botwm 'Dechrau'.




Ar ôl clicio'r botwm Dechrau, fe welwch y dudalen Cyflwyniad i'r Ffurflen Hawlio Grant.


# Parhau â'r Cais/Dechrau Eto

Unwaith y byddwch wedi dechrau ar eich hawliad, byddwch yn gallu ei adael a dychwelyd ato eto. Os ydych yn mynd at hawliad yr ydych eisoes wedi ei ddechrau, yna bydd modd i chi Barhau (botwm dde ar waelod y sgrîn), neu Ddechrau Eto drwy glicio'r ddolen a welir ar y sgrinlun hwn:





Nodwch os gwelwch yn dda – os byddwch yn dewis Dechrau Eto, bydd hyn yn dadosod yr holl gwestiynau rydych wedi eu hateb ac yn dileu’r holl wybodaeth rydych wedi ei hychwanegu.

Os ydych yn siŵr eich bod eisiau Dechrau Eto, Cliciwch Ydw, neu os nad ydych am wneud, cliciwch Na, fel y dangosir ar y sgrîn hon:




## Tudalen Cyflwyniad


Mae'r dudalen hon yn rhoi negeseuon pwysig ichi am y Ffurflen Hawlio Grant. Gofalwch eich bod wedi'u darllen yn drylwyr cyn ichi ddechrau. Gallwch weld y Canllaw Sut i Lenwi Ffurflen Hawlio Grant ar wefan Llywodraeth Cymru (bydd hyn yn agor tab newydd ar eich Porwr Rhyngrwyd) drwy glicio ar y ddolen 'Sut i Lenwi'




# Dewiswch Gontractau

Dim ond os oes gennych fwy nag un contract y gallwch hawlio drwyddynt y byddwch yn gweld y dudalen hon. Gallan nhw fod yn gontractau ar wahân ar gyfer yr un cynllun neu gontractau ar gyfer cynlluniau gwahanol. Dewiswch pa gontract(au) yr hoffech hawlio drwyddynt drwy glicio ar y blwch perthnasol.

Er enghraifft, mae dau gontract ar y Ffurflen Hawlio Grant isod y gallwch hawlio drwyddynt:





Wedi ichi ddewis contract i'w hawlio, bydd y cynllun i'w weld ar ochr chwith y dudalen. Os byddwch wedi dewis mwy nag un contract, bydd pob cynllun y byddwch wedi'i ddewis yn ymddangos yma.



# Gweithgareddau ar gael i Hawlio amdanynt

Mae’r sgrin hon yn dangos y gweithgareddau sydd ar gael ichi Hawlio Grant arnyn nhw ar hyn o bryd.

Bydd y sgrîn yn dangos y contract rydych yn hawlio taliad trwyddo.




Ar dop y dudalen hon, mae yna flwch Help glas sy'n esbonio beth i'w wneud i hawlio'ch taliad.

Ar gyfer rhai Ffurflenni Hawlio Grant, bydd blwch glas arall yn ymddangos o dan y blwch Help fydd yn rhoi rhagor o fanylion y cynllun penodol rydych wedi dewis hawlio'i daliad.

Rhaid i’r wybodaeth y byddwch yn ei rhoi ar y sgrin hon fod yn gywir. Ticiwch y blwch sydd yn ymyl y gweithgaredd yr hoffech hawlio amdano. Nodwch y swm rydych yn ei hawlio, a'r dyddiad y cwblhawyd y gweithgaredd.


Sylwer mai dim ond unwaith y cewch chi hawlio am weithgaredd, h.y. chewch chi ddim hawlio am ran o weithgaredd yn awr, yna cyflwyno hawliad arall yn ddiweddarach am weddill y gwaith.

Dim ond pan fydd yr holl waith o dan y gweithgaredd hwnnw wedi'i gwblhau y cewch chi hawlio am weithgaredd.

Os bydd y manylion y byddwch yn eu rhoi yn anghywir, fe welwch neges yn dangos eich bod wedi gwneud camgymeriad ac ni fyddwch yn cael cyflwyno'ch hawliad tan ichi gywiro'r holl gamgymeriadau.

# Adroddiad Prosiect – Cynnydd Prosiect


Ar y dudalen hon mae'n rhaid ichi roi diweddariad ynghylch statws presennol y prosiect, yn ogystal â'r dangosyddion a'r canlyniadau a gyflawnwyd.




Mae'n rhaid ichi roi diweddariad o statws presennol y prosiect yn y blwch Cynnydd y Prosiect.


Gallwch gynnwys cyfeiriad at y ganlynol:

- Cynnydd hyd yma a gwaith sydd wedi ei gynllunio
- Gwaith ymgysylltu â'r gymuned a wnaed
- Materion y daethpwyd ar eu traws ac unrhyw risgiau a allai effeithio ar gwblhau'r prosiect
- Sut yr eir i'r afael â materion/risgiau.



# Adroddiad Prosiect – Dangosyddion a Chanlyniadau

Mae’n rhaid ichi ddarparu manylion y cynnydd a wnaed tuag at gyrraedd y Dangosyddion a’r Canlyniadau a ddewiswyd ar gyfer eich prosiect a ddangosir ar eich tab Adroddiad Prosiect.


**Dangosyddion a Chanlyniadau**

Rhowch fanylion am y cynnydd a wnaed hyd yma tuag at fodloni dangosyddion a chanlyniadau'r prosiect.

| Enw / Disgrifiad | Targed y Contract | Yr hyn a gyflawnwyd yn blaenorol hyd yma | Wedi'i gyflawni hyd yma | Cynnydd |
|---|---|---|---|---|
| Arwynebedd o dan gnydau/cnydau a dyfir | 1 | | | 0/500 |
| Nifer y cwsmeriaid a dargedir | 2 | | | 0/500 |
| Gwerth y gwerthiant | 3 | | | 0/500 |

Ym mhob blwch Cyflawnwyd hyd Yma, mae’n rhaid ichi roi ffigur rhifol yn unol â chynnydd yn erbyn targed y contract.

Ym mhob blwch Cynnydd mae’n rhaid ichi nodi testun, yn disgrifio sut rydych yn gwneud cynnydd o ran cyrraedd pob targed y cytunwyd arno.

Rhaid nodi testun yn disgrifio’r canlyniadau yn y blwch Cynnydd ar gyfer yr holl Ddangosyddion a Chanlyniadau y cytunwyd arnynt, hyd yn oed os na wnaed unrhyw gynnydd.

Gwiriwch bod yr hyn rydych wedi’i gyflwyno yn gywir, yna arbedwch.

Mae’n rhaid ichi hefyd ddarparu tystiolaeth ddogfennol i gefnogi eich cais fel y disgrifir isod.

## Dogfennau Ategol – Tystiolaeth ar gyfer eich Cais

| Canlyniad | Y dystiolaeth ategol sydd ei hangen |
|---|---|
| Sefydlu busnes garddwriaethol newydd neu fenter arddwriaethol newydd sy'n rhan o fusnes sy'n bod eisoes. | • Ffotograff â geodag o'r eitemau cyfalaf sydd wedi'u prynu.<br>• Ffotograff â geodag o gnydau/cnydau'n tyfu. (e.e. hau, tyfu, cynaeafu) Mae angen i'r arwynebedd y tyfir arno adlewyrchu'r arwynebedd a nodir yn y cais.<br>• Copïau o anfonebau prynu.<br>• Copïau o anfonebau gwerthu. (Lle bo'n gymwys) |
| Tyfu cnwd neu gnydau garddwriaethol ar raddfa fasnachol / lled-fasnachol. | |
| Datblygu llwybr i farchnad ar gyfer y cnwd garddwriaethol. | |
| Sicrhau incwm yn sgil gwerthu'r cnwd i farchnad newydd. | • Copïau o anfonebau gwerthu (lle bo'n gymwys)<br>• Tystiolaeth eich bod wedi cael yr incwm (datganiad banc) lle bo'n gymwys<br>• Ni fydd mentrau sydd wedi plannu cnydau parhaol nad ydynt yn cynhyrchu yn y flwyddyn blannu wedi cael incwm o'u gwerthu eto. |
| Meithrin gwybodaeth am dyfu, cynaeafu, storio, pacio, marchnata a dosbarthu. | • thystiolaeth a ddarparwyd yn erbyn canlyniadau eraill.h |
| Mynd ati i ddatblygu sgiliau perthnasol (technegol a busnes). | • Copïau o dystysgrifau hyfforddi<br><br>Tystiolaeth o bresenoldeb mewn digwyddiadau hyfforddi (O leiaf 2 weithgaredd DPP sy'n berthnasol i'r busnes) |
| Adolygu cryfder, gwendidau, cyfleoedd a bygythiadau a datblygu strategaethau priodol i ddatblygu'r busnes. | • Copi o'r cynllun busnes.<br><br>Dylai'r cynllun gwmpasu'r 3 blynedd nesaf o leiaf a chynnwys y canlynol:<br><br>• Manylion y busnes<br>• Manylion yr adnoddau sydd ar gael, gweithgarwch y busnes a'r system gynhyrchu (ac os yw'n briodol, y berthynas â'r busnes ffermio).<br>• Dadansoddiad SWOT.<br>• Nodau ac amcanion.<br>• Dadansoddiad o'r farchnad a'r gystadleuaeth.<br>• Amcanion a chynigion buddsoddi y dyfodol<br>• Yr adnoddau sydd eu hangen.<br>• Cynllun gweithredu / cyflawni. |

| | |
|---|---|
| | • Rhagolygon ariannol 3 blynedd (Gan gynnwys llif arian, elw a cholled a rhagolygon y fantolen.) |

**Os na fyddwch wedi dangos digon o dystiolaeth, caiff eich hawliad ei wrthod.**

# Cyflwyno'r Hawliad


### Gwallau a Gwybodaeth

Mae'r adran hon yn rhestru'r Negeseuon 'Gwallau a 'Gwybodaeth' ar eich Ffurflen Hawlio Grant. **Rhaid** cywiro unrhyw wallau cyn cyflwyno'ch Ffurflen Hawlio Grant.


Diben y negeseuon Gwybodaeth yw eich atgoffa am unrhyw gamau y gallai fod gofyn ichi eu cymryd, ond nid ydynt yn eich rhwystro rhag cyflwyno'ch cais.

I weld negeseuon Gwallau a Gwybodaeth ar gyfer adran benodol, cliciwch ar enw'r adran ar ochr chwith y sgrin neu cliciwch ar ddolen Enw'r Adran yn y blwch Gwallau a Gwybodaeth.

Ar ôl ichi gywiro'r gwallau, rydych nawr yn barod i gyflwyno'ch Ffurflen Hawlio Grant. Mae'r sgrin gyflwyno'n rhestru'r holl weithgareddau rydych wedi'u dewis i hawlio arnyn nhw, ac mae'n dangos gwerth yr hawliad hefyd.



# Datganiadau ac Ymrwymiadau





Rhaid darllen y Datganiadau a'r Ymrwymiadau i wneud yn siŵr eich bod yn cydymffurfio â nhw. Sgroliwch i lawr y dudalen i ddarllen y Datganiadau a'r Ymrwymiadau i gyd. Pan fyddwch yn fodlon eich bod wedi'u darllen a'u deall ac wedi cydymffurfio â nhw, ticiwch y blwch ar y gwaelod i fynd yn eich blaen.

Os na fyddwch wedi ticio'r blwch i gadarnhau'ch bod wedi darllen a deall y Datganiadau ac Ymrwymiadau ac wedi cymdymffurfio â nhw, fe welwch neges camgymeriad ac ni fyddwch yn cael cyflwyno'ch hawliad tan ichi dicio'r blwch.

Bydd angen ichi dicio mwy nag un blwch wrth hawlio rhai grantiau. Gofalwch fod yr holl flychau wedi'u ticio.

Cliciwch y botwm **Nesaf** os ydych am fynd yn eich blaen.

# Anfon




Mae’ch Hawliad Grant yn awr yn barod i’w anfon. Os ydych yn barod i'w anfon, pwyswch y botwm anfon.

Gofalwch eich bod yn anfon eich Ffurflen Hawlio Grant erbyn y dyddiad cau sydd yn y contract.

Os na fyddwch wedi'i anfon erbyn y dyddiad cau, ni chewch eich talu. Ar ôl

anfon yr hawliad, rhaid cyflwyno'r holl ddogfennau ategol cymwys.

Os na fyddwch wedi cyflwyno'r dogfennau ategol erbyn y dyddiad cau, ni chewch eich talu.

## Manylion Cysylltu

### Ymholiadau gan Ffermwyr – y Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid

Yn y lle cyntaf, dylai cwsmeriaid sydd am gysylltu â ni ffonio neu e-bostio’r Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid lle bydd staff wrth law i roi gwybodaeth ac i ateb cwestiynau.

Gallwch ddefnyddio'r dudalen 'Negeseuon' ar eich cyfrif RPW Ar-lein i anfon cwestiwn at y Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid. Fel arall, defnyddiwch y manylion cysylltu canlynol:

Ffôn: 0300 062 5004

Cyfeiriad Blwch Swyddfa Bost:

Taliadau Gwledig Cymru,
Blwch Postio 251,
Caernarfon,
LL55 9DA